

DATGANIAD O DÂL AM WASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL (Taliad Misol Cyfartalog yn sgil COVID-19)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 76 a 77 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006⁽¹⁾ a rheoliad 10 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986⁽²⁾, ar ôl ymgynghori â'r sefydliad a gydnabyddir ganddynt fel un sy'n cynrychioli contractwyr sy'n darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol, yn gwneud y penderfyniad a ganlyn.

Rhan 1

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r penderfyniad hwn yw Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol (Taliad Misol Cyfartalog yn sgil COVID-19).

(2) Daw'r penderfyniad hwn i rym ar 23 Mai 2020.

(3) Yn y penderfyniad hwn—

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw'r cyfnod o un flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth;

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“*Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “contractwr” (“*contractor*”) yw person sydd wedi ymgymryd â darparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol ac y cynhwysir ei enw ar y rhestr offthalmig;

ystyr “GOC” (“*GOS*”) yw Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol;

ystyr “Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol” (“*General Ophthalmic Services*”) yw'r gwasanaethau y mae rhaid i gontractwr eu darparu yn unol â'r telerau a nodir ym mharagraff 10 o Atodlen 1 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986;

ystyr “rhestr offthamig” (“*ophthalmic list*”) yw'r rhestr a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â rheoliad 6 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986; ac

ystyr “TMCGOC” (“*GOSAMP*”) yw'r Taliad Misol Cyfartalog Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol sy'n daladwy i gontractwr am ddarparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn unol â'r penderfyniad hwn.

(1) 2006 p. 42.

(2) O.S. 1986/975. Diwygiwyd rheoliad 10 gan O.S. 2007/1026 (Cy. 93) ac O.S. 2008/577 (Cy. 56). Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Rhan 2

Taliadau Misol Cyfartalog yn sgil COVID-19

Taliadau Misol Cyfartalog Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn ystod y pandemig COVID-19

2. Mae Taliad Misol Cyfartalog Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, a gyfrifir yn unol â pharagraffau 5 neu 6, yn daladwy i contractwr am ddarparu GOC o 17 Mawrth 2020 ymlaen.

3. Bydd contractwr sy'n darparu unrhyw ofal llygaid brys ac argyfwng(3) ar 17 Mawrth 2020 neu ar ôl hynny yn cael taliad o 25% o werth TMCGOC cyfrifedig y contractwr hwnnw ar ben ei TMCGOC.

4. Bydd taliadau TMCGOC contractwr yn cael eu talu mewn rhandaliadau misol, fel ôl-daliad ar y 14^{eg} diwrnod ym mhob mis calendr.

Cyfrifo gwerth TMCGOC ar gyfer contractwyr a chanddynt o leiaf 3 blynedd o hanes o hawliadau GIG

5. Bydd gwerth TMCGOC contractwr sydd wedi bod yn gwneud hawliadau i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol am o leiaf 3 blynedd cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad hwn i rym yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio hawliadau'r contractwr i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol ar gyfer pob mis yn ystod y 3 blynedd ariannol flaenorol (2017-18, 2018-19 a 2019-20) fel a ganlyn—

(a) swm hawliadau GOC y contractwr ar gyfer pob mis calendr yn ystod y blyneddau ariannol 2017-2018 (HBA17), 2018-2019 (HBA18), a 2019-2020 (HBA19) wedi ei rannu â thri deg a chwech, a

(b) gellir mynegi gwerth y TMCGOC a gyfrifir fel a ganlyn—

$$\text{gwerth TMCGOC} = (HBA17 + HBA18 + HBA19) \div 36$$

Cyfrifo gwerth TMCGOC ar gyfer contractwyr a chanddynt lai na 3 blynedd o hanes o hawliadau GIG

6.—(1) Bydd gwerth TMCGOC contractwr sydd wedi bod yn gwneud hawliadau i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol am lai na 3 blynedd cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad hwn i rym yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio hawliadau'r contractwr i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn unol ag is-baragraffau (2) i (5) fel y bônt yn gymwys.

(2) Bydd gwerth TMCGOC contractwr sydd wedi bod yn gwneud hawliadau i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol am gyfnod cyfansymiol o 12 mis o leiaf ond dim mwy na 36 mis cyn y daw'r penderfyniad hwn i rym yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio hawliadau'r contractwr i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-2020 fel a ganlyn—

(a) swm hawliadau GOC y contractwr am bob mis am y 12 mis o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020 yn gynhwysol (SHM) wedi ei rannu â 12, a

(3) Gweler llythyrau'r Prif Gynghorydd Optometrig i'r Proffesiwn Optometrig yng Nghymru, dyddiedig 17 a 19 Mawrth 2020, am yr hyn a olygir wrth ofal llygaid brys ac argyfwng.

- (b) gellir mynegi gwerth y TMCGOC a gyfrifir at ddibenion yr is-baragraff hwn fel a ganlyn—

$$\text{gwerth TMCGOC} = SHM \div 12.$$

(3) Bydd gwerth TMCGOC contractwr sydd wedi bod yn gwneud hawliadau i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol am gyfnod cyfansymiol o 6 mis o leiaf ond dim mwy na 12 mis cyn y daw'r penderfyniad hwn i rym yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio hawliadau'r contractwr i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn ystod 6 mis olaf blwyddyn ariannol 2019-2020 fel a ganlyn—

- (a) swm hawliadau GOC y contractwr am bob mis am y 6 mis o fis Hydref 2019 i fis Mawrth 2020 yn gynhwysol (*SHM*) wedi ei rannu â 6, a
- (b) gellir mynegi gwerth y TMCGOC a gyfrifir at ddibenion yr is-baragraff hwn fel a ganlyn—

$$\text{gwerth TMCGOC} = SHM \div 6.$$

(4) Bydd gwerth TMCGOC contractwr sydd wedi bod yn gwneud hawliadau i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol am gyfnod cyfansymiol o 3 mis o leiaf ond dim mwy na 6 mis cyn y daw'r penderfyniad hwn i rym yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio hawliadau'r contractwr i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn ystod 3 mis olaf blwyddyn ariannol 2019-2020 fel a ganlyn—

- (a) swm hawliadau GOC y contractwr am bob mis ar gyfer 3 mis, sef mis Ionawr, mis Chwefror a mis Mawrth 2020 (*SHM*) wedi ei rannu â 3, a
- (b) gellir mynegi gwerth y TMCGOC a gyfrifir at ddibenion yr is-baragraff hwn fel a ganlyn—

$$\text{gwerth TMCGOC} = SHM \div 3.$$

(5) Bydd gwerth TMCGOC contractwr sydd wedi bod yn gwneud hawliadau i'r GIG am gyfnod o lai na 3 mis cyn y daw'r penderfyniad hwn i rym yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio hawliadau'r contractwr i'r GIG am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol am bob mis yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020 fel a ganlyn—

- (a) swm hawliadau GOC y contractwr am bob mis (*SHM*) wedi ei rannu â nifer y misoedd y cyflwynwyd hawliadau ar eu cyfer (*NHM*), a
- (b) gellir mynegi gwerth y TMCGOC a gyfrifir at ddibenion yr is-baragraff hwn fel a ganlyn—

$$\text{gwerth TMCGOC} = SHM \div NHM.$$

Amodau sydd ynghlwm wrth y Taliadau Misol Cyfartalog Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol

7. Dim ond os yw'r contractwr yn bodloni'r amodau a ganlyn y caniateir i TMCGOC, neu unrhyw ran ohono, gael ei wneud—

- (a) rhaid i'r contractwr ddarparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth nad oes gan y Bwrdd Iechyd Lleol ond y mae arno ei hangen, sef gwybodaeth sydd naill ai gan y contractwr neu y gellid yn rhesymol disgwyl iddo gael gafael arni, er mwyn cyfrifo TMCGOC y contractwr,
- (b) rhaid i'r contractwr gadw cofnodion cywir o'r holl Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a ddarparwyd, gan gynnwys gofal llygaid brys ac argyfwng, ac
- (c) rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir gan y contractwr i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â'r paragraff hwn fod yn gywir hyd eithaf gwybodaeth a chred y contractwr.

8. Os bydd y contractwr yn torri unrhyw un o'r amodau ym mharagraff 7, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, o dan amgylchiadau priodol, beidio â thalu TMCGOC, neu unrhyw ran ohono, sy'n daladwy fel arall.

RHAN 3

DIRYMIADAU

9. Mae penderfyniad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â thâl contractwyr, a ddaeth i rym ar 13 Mai 2019, wedi ei ddirymu.



Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 22 Mai 2020